

DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992

RHEOLAU TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD (GWEITHDREFN CEISIADAU A GWRTHWYNEBIADAU)  
(CYMRU A LLOEGR) 2006

GORCHYMYN RHEILFFORDD FYNYDD ABERHONDDU (RHEILFFORDD YSGAFN) 202[ ]

MEMORANDWM ESBONIADOL

Mae'r memorandwm hwn yn egluro pwrpas ac effaith pob erthygl yn y gorchymyn draft, fel sy'n ofynnol gan Reol 10(2)(b) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006. Mae hefyd yn amlygu ac yn egluro'r gofyniad ar gyfer ac effaith unrhyw wyriadau oddi wrth Gorchymyn Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Rheilffyrdd a Thramffyrdd 2006 (y **Cymalau Enghreifftiol**).

Hyrwyddir y gorchymyn gan Vale of Rheidol Railway Limited (y cyfeirir ato fel yr **Ymgymwrwr**). Mae'r Gorchymyn yn darparu i Brecon Mountain Railway Company Limited (y **Perchennog**) drosglwyddo'r ymgymeriad llwyr i'r Ymgymwrwr. Mae'r Gorchymyn hefyd yn ceisio egluro'r pwerau a roddwyd i'r Ymgymwrwr trwy hepgor rhai o'r darpariaethau cydsynio a geir yng Ngorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980 (y **Gorchymyn Gwreiddiol**) i gydnabod bod yr ymgymeriad bellach yn reilffordd gwbl weithredol ac ni ystyrir unrhyw adeiladu pellach.

Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo'r pwerau presennol, pwerau statudol a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r ymgymeriad o'r Perchennog i'r Ymgymwrwr, gan ni ellir gwneud hynny heb yr awdurdod statudol bydd y Gorchymyn yn ei ddarparu.

Nid yw'r Gorchymyn yn awdurdodi adeiladu unrhyw waith na chaffael tir.

Mae'r Gorchymyn yn seiliedig ar y Gorchymyn Gwreiddiol a'r Cymalau Enghreifftiol, ond yn gwyrto oddi wrth y rhain lle yn briodol yng ngoleuni gorchymynion cynsail blaenorol, yn benodol Gorchymyn Rheilffordd Ucheldir Cymru Caernarfon a Dinas (Trosglwyddo a Llywodraethu) 2022 (y cyfeirir ato fel **Gorchymyn Ucheldir Cymru**) ac (yn llai aml) Gorchymyn Rheilffordd De Dyfnaint 2009 (y cyfeirir ato fel **Gorchymyn De Dyfnaint**).

Lle ceir gwyrto oddi wrth y Cymalau Enghreifftiol, rhoddir esboniad isod.

### **Erthyglau'r Gorchymyn**

Mae **Erthygl 1 (Teitl a chychwyniad)** yn darparu ar gyfer cychwyn a dyfynnu'r Gorchymyn.

Mae **Erthygl 2 (Dehongliad)** yn darparu'r diffiniadau i'w cymhwyso i ymadroddion penodol wrth ddehongli'r Gorchymyn.

"Y Gorchymyn Gwreiddiol" yw Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980;

"Y Perchennog" yw Brecon Mountain Railway Company Limited, cwmni a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1967 (rhif cwmni 01409791) fel cwmni cyfyngedig drwy gyfrannau, gyda'i swyddfa gofrestredig yng Ngorsaf Pant, Pontsticill, Merthyr Tudful, Cymru CF48 2UP;

“Y Reilffordd” yw’r reilffordd a adnabyddir fel ‘Rheilffordd Fynydd Aberhonddu’ (Brecon Mountain Railway) sef rheilffordd 8,720 metr o hyd, neu oddeutu hynny, gan gynnwys twnnel sy’n cychwyn yn Sir Merthyr Tudful ar gyfeirnod map SO 059097 ac yn terfynu yn Sir Powys ar gyfeirnod SO 058170;

“Y Dyddiad Trosglwyddo”, mewn perthynas â’r reilffordd, yw’r dyddiad y mae’r teitl yn trosglwyddo o’r Perchennog i’r Ymgwymerwr o dan erthygl 3 (trosglwyddiad y reilffordd i’r Ymgwymerwr);

“Y Trosglwyddai” yw unrhyw berson y mae’r reilffordd, neu unrhyw ran o’r reilffordd, yn cael ei phrydlesu neu ei gwerthu iddo o dan y pwerau a roddir gan erthygl 4 (trosglwyddiad y reilffordd gan yr Ymgwymerwr);

“Yr Ymgwymeriad a Drosglwyddir” yw cymaint o’r reilffordd a lesir neu a werthir o dan y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn; ac

“Yr Ymgwymerwr” yw Vale of Rheidol Railway Limited, cwmni a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 (rhif cwmni 02188631) fel cwmni cyfyngedig drwy gyfrannau, gyda’i swyddfa gofrestrdig yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth, Ceredigion, Cymru SY23 1PG.

Nid yw’r un o’r diffiniadau hyn wedi’u nodi yn y Cymalau Enghreifftiol.

Mae erthygl 2(2) yn ail-eiriad o Gymal Enghreifftiol 1(3), wedi’i addasu i’w gwneud yn fwy addas ar gyfer y reilffordd lle nad oes unrhyw waith cynlluniedig, ac nad yw gwaith adeiladu newydd wedi’i awdurdodi o dan y Gorchymyn.

Mae erthygl 2(2) wedi ei chynnwys i gydnabod y gall fod gwyradau ansylweddol rhwng yr hydroedd a’r cyfarwyddiadau a roddwyd mewn perthynas â’r reilffordd a’r union hydroedd a chyfarwyddiadau ar y ddaear. Mae’r cymal yn olrhain geiriad erthygl 4(2) o’r Gorchymyn Gwreiddiol ond mewn iaith hygyrch wedi’i diweddarau.

Mae’r iaith a ddefnyddir yn erthygl 2(2) o’r Gorchymyn yn cael cysail yn erthygl 2(2) Gorchymyn Ucheldir Cymru.

Gan roi sylw i’r egwyddorion sy’n ymwneud â hygyrchedd y gyfraith, mae erthygl 2(3) yn rhoi rhagor o wybodaeth i’r darlennydd am ystyr y pwyntiau cyfeirio a roddir yn y diffiniad o’r reilffordd a lle y gellir archwilio’r cynlluniau.

Mae erthygl 2(4) yn ei wneud yn glir sut mae darpariaethau’r Gorchymyn Gwreiddiol a’r Gorchymyn yn rhyngweithio. Lle bo unrhyw wyro oddi wrth y ddau orchymyn neu anghysondeb rhyngddynt, darpariaethau’r Gorchymyn fydd drechaf. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir nad y bwriad yw dirymu’r Gorchymyn Gwreiddiol, ond i wneud newidiadau angenrheidiol i ganiatáu trosglwyddo’r reilffordd yn ei chyflwr llawn weithredol i’r Ymgwymerwr.

**Erthygl 3 (Trosglwyddiad y reilffordd i’r Ymgwymerwr)** yw’r erthygl weithredol sy’n darparu ar gyfer trosglwyddo’r reilffordd, ynghyd ag unrhyw bwerau a rhwymedigaethau statudol presennol yn y Gorchymyn Gwreiddiol, i’r Ymgwymerwr. Mae’n awdurdodi’r Perchennog a’r Ymgwymerwr i wneud unrhyw gytundebau a all fod yn ofynnol i gyflawni’r trosglwyddiad.

Mae’r erthygl yn cydnabod nad yw’r dyddiad trosglwyddo yn hysbys eto.

Ar ôl cwblhau’r trosglwyddiad, bydd gan yr Ymgwymerwr yr hawl i arfer yr holl bwerau sy’n ddarostyngedig i’r rhwymedigaethau sy’n ymwneud â’r reilffordd ac eithrio’r Perchennog. Ar ôl ei gwblhau bydd y Perchennog yn cael ei ryddhau o atebolrwydd ar yr un pryd.

Nid yw’r erthygl yn seiliedig ar y Cymalau Enghreifftiol. Fodd bynnag, mae gan ffurf yr erthygl gysail yn erthygl 9 o Orchymyn De Dyfnaint ac erthygl 3 o Orchymyn Ucheldir Cymru. Mae Gorchymyn De Dyfnaint a Gorchymyn Ucheldir Cymru yn ymwneud â throsglwyddo ymgwymeriad heb waith newydd.

Mae **Erthygl 4 (Trosglwyddiad y reilffordd gan yr Ymgwymerwr)** yn seiliedig ar y Cymalau Enghreifftiol. Gan nad yw'r Gorchymyn yn awdurdodi gwaith adeiladu, mae Cymal Enghreifftiol 35 wedi'i ddiwygio i ddileu unrhyw gyfeiriad at 'adeiladu'.

Nid oes unrhyw waith corfforol yn cael ei ystyried gan yr Ymgwymerwr.

Mae gan yr erthygl gysail yn erthygl 4 o Orchymyn Ucheldir Cymru.

**Erthygl 5 (Pŵer i weithredu a defnyddio'r reilffordd)** - mae erthyglau 5(1) a 5(3) yn seiliedig ar Erthygl Enghreifftiol 34 ac erthyglau 5(1) a 5(5) o Orchymyn Ucheldir Cymru.

Mae'r erthygl yn ailddatgan yr hawl i weithredu'r reilffordd ond heb ddarpariaethau caniatâd erthygl 8(3) o'r Gorchymyn Gwreiddiol. Mae hyn oherwydd bod y reilffordd bellach yn gwbl weithredol ac yn cael ei ddefnyddio i gludo teithwyr.

Mae erthygl 5(2) yn cynrychioli ymgorfforiad erthygl 36 o'r Erthyglau Enghreifftiol. Gan nad yw'r reilffordd yn cludo nwyddau, mae erthygl 36 wedi cael ei addasu i beidio cynnwys unrhyw gyfeiriad at 'nwyddau'. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu disgrisiwn i'r Ymgwymerwr godi tâl am gludo teithwyr ar y reilffordd. Mae hefyd yn caniatáu i'r Ymgwymerwr benderfynu, unwaith eto yn ôl ei ddisgrisiwn, ar ba lefel y dylid gosod prisiau o'r fath ac yn rhoi'r gallu i'r Ymgwymerwr newid unrhyw strwythur prisiau pan fydd yn ei ystyried yn angenrheidiol.

Mae **Erthygl 6 (Pŵer symud)** yn diwygio ond nid yw'n dirymu erthygl 9 o'r Gorchymyn Gwreiddiol. Mae'n diwygio'r Gorchymyn Gwreiddiol i roi'r hyblygrwydd i'r Ymgwymerwr weithredu'r reilffordd gyda ffurfiau ychwanegol o bŵer symud nad oedd ar gael pan roddwyd y Gorchymyn Gwreiddiol. Nid yw'r erthygl yn newid lled (gauge) enwol y reilffordd, na'r angen i geisio caniatâd y Comisiynwyr Coedwigaeth i ddefnyddio unrhyw bŵer symud ac eithrio stêm wedi tanio ag olew, hylosgiad mewno neu drydan ar unrhyw ran o'r reilffordd i'r gogledd o gyfeirnod map SO 063125 fel y nodir yn erthygl 9 o'r Gorchymyn Gwreiddiol.

Mae gan erthygl 6 gysail yn erthyglau 5(2)-5(4) o Orchymyn Ucheldir Cymru.

Isca Legal LLP

Cyfreithwyr i'r Ymgeisydd, Vale of Rheidol Railway Limited

20 Ionawr 2025